# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## Y CABINET - DYDD IAU, 5 MEDI 2019

## BWRDD GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES Y CABINET

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: A.R.Lockyer a/ac R.G.Jones

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

A.Jarrett, A.Thomas, J.Woodman-Ralph a/ac S.Curran

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd A R Lockyer yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2019 fel cofnod cywir.

3. **ASTUDIAETH DICHONOLDEB CARTREF GOFAL PRESWYL TREM Y GLYN**

**Penderfyniad:**

Bod y cyngor yn gweithio gyda'r darparwr i gynnal astudiaeth dichonoldeb i'r posibilrwydd o gadw Cartref Gofal Preswyl Trem y Glyn ar agor ar ôl 2022.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i dawelu meddyliau preswylwyr, preswylwyr y dyfodol, teuluoedd a staff ynghylch y sefyllfa cyn gynted â phosib.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

## 4. Y GWASANAETHAU PLANT A PHOBL IFANC A'R GWASANAETHAU I OEDOLION - CHWARTER 1AF (EBRILL 19 - MEHEFIN 19) ADRODDIAD PERFFORMIAD

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

## 5. CAFFAEL GWASANAETH EIRIOLAETH AR GYFER OEDOLION

**Penderfyniadau:**

1. Bydd Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion yn ymgymryd ag ymarfer caffael i gomisiynu gwasanaeth eiriolaeth ar gyfer oedolion.

2. Yn dilyn y broses gaffael, caiff awdurdod dirprwyedig ei roi i Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion ymrwymo i gontract â'r cynigiwr y gwerthuswyd ei fod yn cynnig y tendr mwyaf manteisiol yn economaidd (gan ystyried ansawdd a chost y cynigion), er mwyn darparu gwasanaeth eiriolaeth i oedolion.

**Rheswm dros y Penderfyniadau:**

Bydd ymgymryd ag ymarfer ymgynghori er mwyn cyflwyno gwasanaeth eiriolaeth yn sicrhau bod y cyngor yn y sefyllfa orau i fodloni ei ofynion statudol o dan Ran 10 Côd Ymarfer (Eiriolaeth) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Ar ben hynny, bydd ymgymryd ag ymarfer caffael yn helpu'r cyngor i fodloni ei rwymedigaethau cyffredinol sy'n deillio o Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU) a bydd yn rheoli proses ar waith sy'n dyfarnu contract mewn modd tryloyw nad yw'n gwahaniaethu. Yn ogystal, bydd proses gaffael yn sicrhau bod y cyngor yn cydymffurfio â'i Reolau Gweithdrefnau Contract (RhGC) mewnol.

Bydd ymrwymo i gontract gyda darparwr am gyfnod o ddwy flynedd, gydag opsiwn i estyn am gyfnod o hyd at 24 mis ychwanegol yn rhoi mwy o sicrwydd i ddarparwyr ac yn helpu cynaladwyedd y gwasanaeth.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

6. **POLISI RHEOLI AC ADENNILL DYLED Y GWASANAETHAU I OEDOLION**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo Polisi Rheoli ac Adennill Dyled y Gwasanaethau i Oedolion fel y nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd fel Atodiad 1

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Cydymffurfio â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rhan 4 a 5 y Côd Ymarfer (Gosod Ffïoedd ac Asesiad Ariannol) Atodiad F, sy'n ymdrin ag adennill dyled a cholli asedau.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

7. **ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH GOFALWYR BAE'R GORLLEWIN 2018 -19**

**Penderfyniad:**

Gan nad yw swyddogion ar gael, caiff yr eitem ei gohirio tan gyfarfod nesaf Bwrdd Gofal, Iechyd a Lles y Cabinet.

8. **POLISI RHEOLI YMDDYGIAD HILLSIDE**

Roedd yr Aelodau'n gefnogol o'r diwygiad i Bolisi Rheoli Ymddygiad Hillside fel y'i cynigiwyd gan y Pwyllgor Craffu Gofal, Iechyd a Lles a gynhaliwyd cyn y cyfarfod bwrdd hwn.

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo Polisi Rholi Ymddygiad Hillside fel y nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad a gylchredwyd, yn amodol ar y diwygiad canlynol:

Bydd tudalen 157 o'r polisi fel y'i hatodir i'r adroddiad a gylchredwyd o dan Y Rheolwr Cofrestredig (RhC) yn sicrhau y caiff pwynt bwled 7 ei ddiwygio i nodi bod yr holl gofnodion ar reoli, atal a disgyblu'n cael eu cwblhau'n llawn cyn gynted â phosib, ac o fewn 24 awr o'r digwyddiad oni bai fod amgylchiadau eithriadol.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 a'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd yn ôl y gofynion hynny, yn benodol mewn perthynas â'r amgylchiadau lle caniateir atal corfforol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

9. **ADRODDIAD ANSAWDD GOFAL Y GWASANAETH MAETHU 2018/19 A'R DATGANIAD O DDIBEN MAETHU**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

10. **BLAENRAGLEN WAITH 2018-19**

Nodi'r Blaenraglen Waith ar gyfer 19/20.

11. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**Penderfyniad:**

Yn unol â Rheoliad 4(3) a (5) Offeryn Statudol 2001 Rhif 2290, gwaherddir y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol a oedd yn debygol o gynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel a diffinnir ym Mharagraff 13 Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

12. **CYNNIG I ADNEWYDDU PRYDLES LLETY I'R CYNGOR YNG NGHANOLFAN ADNODDAU CYMUNEDOL CIMLA**

Ar ôl derbyn diweddariad llafar, roedd yr Aelodau'n gefnogol o'r dyddiad cychwyn ar gyfer adnewyddu'r brydles i'w rhoi'n ôl-weithredol.

**Penderfyniad:**

Rhoi sêl bendith mewn egwyddor i adnewyddu'r brydles gyda dyddiad dechrau ôl-weithredol ar gyfer defnyddio Canolfan Adnoddau Cymunedol Cimla am gyfnod o 5 mlynedd ar amodau a thelerau i'w cytuno gan Bennaeth Eiddo ac Adfywio ar y cyd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Galluogi'r cyngor i ymrwymo i brydles gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar gyfer Canolfan Adnoddau Cymunedol Cimla, Castell-nedd SA11 3SU fel y gall yr adeilad barhau i fod yn amgylchedd gweithio ar y cyd er mwyn ymgysylltu'n effeithiol â chydweithwyr yn y gwasanaethau iechyd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

13. **CONTRACT ADDYSG HILLSIDE**

**Penderfyniadau:**

1. Parheir i eithrio Rheol 2 y Rheolau Gweithdrefnau Contractau, ac awdurdodir y cyngor i estyn a diwygio'r cytundeb cydweithio mewn perthynas â'r gwasanaethau addysg yn Hillside gyda'r ysgol, ar y telerau a nodwyd yn yr adroddiad a gylchredwyd;

2. Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai, Pennaeth Cyfranogiad y Cyngor a Rheolwr Canolfan Hillside, yn parhau i gael eu dynodi'n gynrychiolwyr ar gyfer y cyngor hwn at ddibenion y Cytundeb Cydweithio. Gweithredu holl bwerau dirprwyedig y fath gynrychiolydd ar ran y cyngor, ac yn ychwanegol, ddirprwyo'r pŵer i benodi cynrychiolydd amgen neu ddirprwy at ddibenion y Cytundeb Cydweithio i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai, Pennaeth Cyfranogiad y cyngor a Rheolwr Canolfan Hillside.

3. Rhoddir awdurdod dirprwyedig i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles mewn ymgynghoriad â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i drafod y Weithred Amrywio a chytuno arno, ac wedi hynny, awdurdodi Pennaeth y Gwasanaethau

Cymdeithasol i ymrwymo i'r cytundeb ac unrhyw ddogfennaeth gysylltiedig.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Bydd yr amrywiad o'r cytundeb Cydweithio rhwng y cyngor a'r ysgol yn gwella'r ddarpariaeth ymhellach. Bydd yn parhau i ganiatáu gwell reolaeth a goruchwylio, er mwyn cyfoethogi cyfleoedd datblygu proffesiynol ymhellach ar gyfer staff Addysg Hillside. Bydd Cytundeb Cydweithio'n sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer y saith mlynedd nesaf.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

14. **ADRODDIAD Y RHEOLWR AR GARTREF DIOGEL I BLANT HILLSIDE (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 13) (GOHIRIWYD O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 25 GORFFENNAF 2019)**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

15. **RHEOLIADAU GWASANAETHAU RHEOLEIDDIEDIG (DARPARWYR GWASANAETHAU AC UNIGOLION CYFRIFOL) (CYMRU) 2017 (YN EITHRIEDIG DAN BARAGRAFF 13) (GOHIRIWYD O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 25 GORFFENNAF 2019)**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

16. **TREFNIADAU CONTRACT AR GYFER GWASANAETH GOSOD, CYNNAL A CHADW A SYMUD TELEOFAL**

**Penderfyniad:**

Rhoddir awdurdod dirprwyedig i Bennaeth y Gwasanaethau i Oedolion ymrwymo i gontract gyda Gofal a Thrwsio Bae’r Gorllewin Cyf er mwyn iddo ddarparu system teleofal, ei gosod, ei chynnal a'i chadw a'i symud, tan 31 Mawrth 2020, gydag opsiwn i estyn y contract tan 31 Mawrth 2021.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Nid oes digon o gystadleuaeth o ran darparwyr profiadol amgen i ddarparu'r gwasanaeth sy'n ofynnol ac mae'r trefniad presennol yn rhoi'r gwerth gorau am arian i'r cyngor.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

**CADEIRYDD**